

Newyddlen Menter y Tŵr



Ionawr 2025



Hoffai criw Menter y Tŵr ddymuno Blwyddyn Newydd Dda a diolch o galon i bawb fu'n gefnogol a gweithgar drwy gydol 2024.

Croeso i newyddlen gyntaf Menter y Tŵr 2025. Nod criw Menter Y Tŵr yw rhannu y newyddion diweddaraf gyda'r cyhoedd. Gofynnwn yn garedig i chi rannu y newyddlen hon gyda'ch cyfeillion ac anogwch nhw i'n dilyn ar ein gwefannau cymdeithasol a cholofn misol Llanw Llyn.

Roedd 2024 yn flwyddyn fawr yn hanes Menter y Tŵr .

Cynhaliwyd ymgynghoriadau cyhoeddus i gasglu barn y gymuned ar wahanol faterion yn ymwneud a'r adeilad a'r fenter.

Cynhaliwyd dyddiau agored gan groesawu cannoedd drwy ddrysau Y Tŵr i weld yr adeilad , rhannu barn a sylwadau ar y cynlluniau a chofrestru i wirfoddoli. Pleser oedd casglu atgofion cyn-weithwyr a chwsmeriaid am Y Tŵr dros y blynyddoedd.

Cydweithiodd Menter Y Tŵr gyda mentrau a thafarndai cymunedol cyfagos a hoffem ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a'u cyngor gwerthfawr yn ystod y flwyddyn.

Bu'r gwaith o weinyddu y cyfranddaliadau cyn cynhyrchu tystysgrif i bob cyfranddalwr yn dasg gymleth. Cymerodd ddegau o oriau gwirfoddolwyr dros gyfnod o fisodd ond llwyddwyd i ddatrys pob un.

Os am ymuno a'r criwiau gwirfoddoli gan gynnwys gwaith clirio, trefnu digwyddiadau codi arian neu gefnogi gyda gwaith y pwyllgor yna cysylltwch â ni ar y cyfryngau cymdeithasol neu ebost ytwr pwllheli@gmail.com

Criw Y Tŵr x

Yn y newyddlen hon

Gwaith
Adnewyddu'r
Adeilad

Dathlu'r
Nadolig yn Y
Tŵr

Digwyddiadau
Cymunedol

Prosiect Celf
Pontio
Cenedlaethau
Y Tŵr



Dathlu'r Nadolig yn Y Tŵr

Bachwyd ar bob cyfle i ddathlu'r Nadolig yn Y Tŵr eleni ddyddiau cyn i'r gwaith adeiladu gychwyn. Agorwyd y bar ar benwythnosau, a'r Tŵr oedd cartref groto Sion Corn yn ystod penwythnos Hwyl yr Wyl. Pleser oedd cydweithio gyda rhieni Ysgol Ddawns Pwllheli i gynnal y groto gan wybod y bydd yr elw hwnnw yn galluogi disgyblion yr ysgol i gael cystadlu mewn lleoliadau byd enwog fel y Tower Ballroom yn Blackpool a Pontio Bangor.

Camodd yn agos i 300 o blant bach cyffrous dros riniog y Tŵr i weld Sion Corn yn ei groto hudolus dros y deuddydd prysur.

Diolch i'r holl wirfoddolwyr fu'n addurno'r adeilad ac yn gweithio yn y bar, yn gweini paneidiau ac yn gwerthu raffls er budd Menter y Tŵr. Braf oedd creu naws Nadoligaidd hyfryd yn yr adeilad crand unwaith eto a gweld goleuadau o'r Tŵr yn cynhesu'r Stryd Fawr.



Digwyddiadau Cymunedol

Bydd codi arian ar gyfer Menter y Tŵr yn sialens barhaus ond gall fod yn bleserus fel y profwyd cyn y Nadolig. Rydym yn hynod ddiolchgar i unigolion fel Karen Rees Roberts a Linda Dowling am drefnu Bingo yn Y Golff a Noson Hwyl Nadoligaidd yng Nghaffi Largo. Braf yw casglu arian tra'n cymdeithasu ac mae croeso i unrhyw un drefnu digwyddiad sydd o ddiddordeb iddynt er budd Menter y Tŵr. Nid oes rhaid bod yn aelod o'r pwyllgor. Byddem yn hynod ddiolchgar am unrhyw gefnogaeth a gweld calendr cymdeithasol y dref yn llenwi. Cysylltwch â ni i drafod ymhellach.



Prosiect Celf Pontio Cenedlaethau Y Tŵr

Diolch i grant Grymuso Gwynedd arianwyd prosiect celf lliwgar o dan arweiniad yr artist rhyngwladol o Bwllheli, Catrin Williams. Y nod oedd ysgogi trafodaethau a chofnodi atgofion cenedlaethau o drigolion yr ardal am Y Tŵr fel lleoliad hanesyddol yn y dref. Cwblhawyd y darluniau gan ddisgyblion Ysgol Cymerau ac Ysgol Glan y Môr ar y cyd â Catrin Williams. Y bwriad yw cynnal noson i ddathlu'r prosiect yng Nghaffi Largo yn y dyfodol agos, a bydd cyfle i brynu printiadau o'r darluniau lliwgar gyda'r elw yn mynd tuag at Y Tŵr.

Gwaith Adnewyddu'r Adeilad

Datblygiadau amlwg diweddar yw'r sgaffaldiau sydd yn amgylchynu'r adeilad. Pleser yw cyhoeddi fod y gwaith o adnewyddu'r adeilad wedi cychwyn ddiwedd Tachwedd. Mae'r hen estyniad yn y cefn oedd mewn cyflwr sal iawn wedi ei ddymchwel a'r bwriad yw codi estyniad newydd yn ei le. Bydd y gwaith o adnewyddu'r to a'r ffenestri, a phaentio blaen yr adeilad yn cael ei gwblhau dros y misoedd nesaf



diolch i grantiau gan AHNE a Trawsnewid Trefi.

Tasg gyffrous fydd dewis lliw ar gyfer blaen yr adeilad. Bydd cyfle i'r gymuned roi eu barn.

Cadwch olwg ar ein gwefannau cymdeithasol!



Sut allwch chi helpu?

Mae Menter y Tŵr yn wynebu costau yswirio o oddeutu £30,000 eleni, ac rydym angen eich cefnogaeth i gynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau codi arian er mwyn cau'r bwlch ariannol hwn. Mae grŵp bach wedi ei sefydlu i yrru'r gwaith yma yn ei flaen a byddem yn falch iawn o drafod syniadau a chefnogi eich digwyddiadau er budd Menter y Tŵr. Ymunwch a'r grŵp neu gallwch drefnu digwyddiad yn annibynnol er budd Y Tŵr. Byddai'n wych cael amrywiaeth o weithgareddau at ddant pawb ar galendr y dref.

Os hoffech gefnogi neu drafod syniad yna cysylltwch â ni ar y cyfryngau cymdeithasol neu e-bostio ytwrpwlheli@gmail.com